# Dewch yn Arolygydd Cymheiriaid yn y sectorau unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig a gynhelir

## Ynglŷn â'r rôl

Rydym yn recriwtio ymgeiswyr ar hyn o bryd i ddod yn Arolygwyr Cymheiriaid sy'n uwch arweinwyr mewn:

- Ysgolion arbennig a gynhelir
- Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a gynhelir

Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn rhan allweddol o'n timau arolygu. Os byddwch chi'n cymhwyso i fod yn Arolygydd Cymheiriaid, byddwch:

- yn defnyddio eich gwybodaeth a medrau yn ystod teithiau dysgu ac wrth arsylwi gwersi, siarad gyda dysgwyr a chraffu ar enghreifftiau o'u gwaith;
- yn cael trafodaethau â rhieni a staff addysgol;
- yn defnyddio eich arsylwadau i ddrafftio rhannau o'r adroddiad arolygu fel rhan o weithgarwch y tîm arolygu.

Mae bod yn arolygydd cymheiriaid yn gyfle dysgu proffesiynol ardderchog i weld arfer effeithiol lle mae'n digwydd bob dydd a mynd â'r enghreifftiau hyn yn ôl i'ch darpariaeth chi i gefnogi gwelliant.

## Cymhwysedd

Byddwch yn arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg a bydd gennych:

- o leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn rôl uwch arweinyddiaeth (pennaeth, dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol, athro mewn gofal mewn UCD);
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad addysgu;
- cefnogaeth gan eich pennaeth/athro mewn gofal (lle bo hynny'n briodol) neu gefnogaeth gan Gadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pwyllgor Rheoli.

Rhaid i chi fod yn gweithio yn y sector arbennig a gynhelir neu UCD neu mewn ysgol gynradd, uwchradd neu bob oed sy'n gyfrifol am ddosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol (ADY), i fod yn gymwys.

Byddem yn annog yn arbennig i'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion/UCDau cyfrwng Cymraeg wneud cais.

Estyn

Os ydych wedi gwneud cais i fod yn Arolygydd Cymheiriaid o’r blaen ond heb gael eich gwahodd i’r hyfforddiant, byddem yn fodlon ystyried cais newydd. Fel arfer, ein nod yw dyrannu cyfran o’r lleoedd hyfforddiant i ysgolion ac UCDau nad oes ganddynt arolygwyr cymheiriaid ar hyn o bryd.

## Dethol a hyfforddiant

Bydd yr hyfforddiant ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bydd yn cynnwys:

- **Gweithgaredd cyn-hyfforddiant:** rhestr ddarllen y mae’n rhaid i chi ei chwblhau cyn i chi fynychu’r hyfforddiant.
- **Rhan dau:** Tridiau o hyfforddiant, gan gynnwys asesiadau llafar ac ysgrifenedig.
  - Bydd yr hyfforddiant ar gyfer UCDau ac ysgolion arbennig a gynhelir yn cael ei gynnal **3-5 Tachwedd 2026** yn swyddfeydd Estyn, Caerdydd
- **Arolygiad(au) prawf:** Byddwch yn cael eich lleoli mewn arolygiad wedi’i asesu a bydd yr arolygydd arweiniol yn graddio eich perfformiad. Bydd angen gradd A neu B arnoch i lwyddo.

Mae hyfforddiant Arolygwyr Cymheiriaid yn rhad ac am ddim a byddwn yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth a llety (os ydych yn gymwys), yn unol â’n polisi teithio a chynhaliaeth.

## Cymeradwyaeth

Er mwyn mynychu hyfforddiant ac, os yn llwyddiannus, mynychu arolygiadau, mae'n rhaid i ni derbyn cymeradwyaeth gan eich cyflogwr. Rhaid derbyn hwn **cyn** yr hyfforddiant neu ni fyddwch yn gallu mynychu.  Bydd e-bost yn mynd at y cyswllt rydych chi wedi'i rannu yn eich cais.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

I symud ymlaen i’r arolygiad asesedig, mae’n rhaid i chi gwblhau’r asesiadau’n llwyddiannus a chael tystysgrif Uwch ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Rhaid i’r dystysgrif fod yn llai na thair blynedd oed ac yn cynnwys y categori Gweithlu Plant. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich tystysgrif, bydd ein tîm Cynllunio ac Ymestyn yn cysylltu â chi gyda manylion yr arolygiad asesedig. Yn ystod yr arolygiad, bydd yr arolygydd arweiniol yn asesu eich gwaith ac yn rhoi gradd i chi ar ddiwedd wythnos yr arolygiad.

Rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais am dystysgrif GDG cyn gynted ag y byddwch wedi pasio rhan 2 – gall gymryd hyd at chwe wythnos i’r dystysgrif gael ei chyhoeddi. Unwaith y bydd gennych eich GDG, neu os oes un gennych eisoes, anfonwch gopi wedi’i sganio at dbschecks@estyn.gov.wales a chynnwys enw a dyddiad yr hyfforddiant fel y

gallwn wirio ei fod yn bodloni ein gofynion. **Ni fyddwch yn cael eich defnyddio nac yn cael eich ystyried fel eich bod wedi pasio'r hyfforddiant yn llawn nes bod eich tystysgrif wedi'i derbyn.**

## Lleoli

Rydym fel arfer yn lleoli arolygwyr cymheiriaid tuag unwaith y flwyddyn neu unwaith bob dwy flynedd. Caiff ychydig o arolygwyr cymheiriaid eu lleoli'n amlach. Pan fyddwch yn cymryd rhan mewn arolygiad, byddwn yn talu cyfraniad cyfradd unffurf i'ch ysgol ar gyfer athro llanw. Byddwn hefyd yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob Arolygydd Cymheiriaid i gymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru yn ystod tymor yr haf; rhaid i chi gymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn i barhau i fod yn arolygydd cymheiriaid. Nid oes cost ar gyfer yr hyfforddiant ond ni allwn dalu am athrawon llanw na chostau teithio a chynhaliaeth. Rhaid i'ch tystysgrif GDG fod yn gyfredol i fynychu.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein: 32902 Maintained Special & PRU Initial PI**
**Dyddiad cau: 5yh Dydd Llun, 28 Medi 2026**

Byddwn yn cysylltu â phawb â chanlyniad eu cais erbyn yr **wythnos sy'n dechrau ar 5 Hydref 2026.**

Mae unrhyw feysydd sydd wedi'u marcio â * yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os nad ydynt yn berthnasol i chi, rhowch 'Ddim yn berthnasol'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom yn digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 029 2044 6510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.